DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Practis Deintyddol Huw Jones

Dyddiad yr arolygiad: 8 Rhagfyr 2016

Dyddiad cyhoeddi: 9 Mawrth 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn**: 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-8439-9


© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Cyd-destun ........ 3
3. Crynodeb ........ 4
4. Canfyddiadau ........ 5
    - Ansawdd Profiad y Claf ........ 5
    - Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 8
    - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 14
5. Y Camau Nesaf ........ 15
6. Methodoleg ........ 16

# 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Huw Jones yn Northfield Road, Arberth, Sir Benfro, SA67 7AA, ar 8 Rhagfyr 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Huw Jones yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Huw Jones yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig, ac mae wedi'i leoli yn Arberth, Sir Benfro.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys un deintydd, un therapydd rhan amser, dwy nyrs ddeintyddol, un derbynnydd ac un rheolwr practis.

Darperir amrediad o wasanaethau deintyddol preifat.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Huw Jones yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion, a bod y cleifion yn uchel eu parch tuag at y practis.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd boddhad cleifion yn uchel
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Mae digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol, ac maent i'w gweld yn lân ac yn daclus
- Mae trefniadau ar waith i gynnal sganiau pelydr-X yn ddiogel
- Mae offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y modd priodol.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Datblygu prosesau adborth cleifion
- Diweddaru asesiadau risg tân ac amgylcheddol
- Ystyried sut i storio'r eitemau a amlygir yn yr adroddiad yn ddiogel
- Penodi a hyfforddi aelod o staff fel swyddog cymorth cyntaf
- Gwella nodiadau cleifion yn y meysydd a nodir yn yr adroddiad
- Trefniadau ar gyfer archwiliadau sicrhau ansawdd ac adolygiadau gan gymheiriaid
- Diweddaru polisïau fel y nodir yn yr adroddiad
- Cynnal profion protein a chit ffoil ar gyfer yr offer uwchsonig
- Rhoi stamp dyddiad ar offer deintyddol ar adeg sterileiddio.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol. Gwnaethom gynghori'r practis i arddangos mwy o wybodaeth hyrwyddo iechyd er mwyn cefnogi cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u lles eu hunain. Mae angen i'r practis ddatblygu proses ar gyfer casglu adborth gan y cleifion yn rheolaidd, fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cwblhawyd a dychwelwyd 17 ohonynt. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> *"Croeso da a gwasanaeth da"*
>
> *"Hapus iawn gyda'r gwasanaeth a'r driniaeth rwy'n eu cael"*
>
> *"Mae pawb yn groesawgar iawn ac yn falch o helpu bob amser. Hapus iawn, mae'r deintydd yn hyfryd ac yn groesawgar bob tro. Mae'n bleser ymweld â'r deintydd"*
>
> *"Bob amser yn gymwynasgar iawn a gwên hyfryd. Mae'n ymddangos ei fod bob amser yn rhoi tawelwch meddwl i chi, hyfryd cael blodau ffres yn yr ystafell aros. Mae gennyf bob hyder yn fy neintydd a phob aelod o'r staff"*

Gofal gydag urddas

Roedd cleifion yn derbyn gofal mewn modd urddasol a pharchus. Roedd lle ar gael i staff gael sgyrsiau â chleifion mewn man preifat, oddi wrth bobl eraill, os oedd angen. Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd yr adborth a gawsom yn holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol, a nododd cleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent yn eu derbyn yn y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, er mwyn i gleifion

drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Dywedodd y cleifion a ymatebodd yn holiaduron AGIC wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi eithriadol wrth gael eu gweld gan y deintydd. Roedd y mwyafrif o'r cleifion yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Diweddarwyd manylion y practis y tu allan i'r ddeintyddfa yn ystod yr arolygiad i gynnwys yr oriau agor, rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng, ac enw a chymwysterau'r deintydd er mwyn sicrhau bod cleifion yn gallu cael y wybodaeth hon os oes angen.

Cadw'n iach

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd taflenni croeso i gleifion a rhywfaint o wybodaeth hybu iechyd ar gael yn y man aros. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori y gellid sicrhau bod mwy o daflenni hybu iechyd ar gael mewn perthynas â chanser y geg a rhoi'r gorau i ysmygu, a darparwyd gwybodaeth yn ystod yr arolygiad. Mae gwybodaeth hyrwyddo iechyd yn cynorthwyo wrth gefnogi cleifion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Gofal unigol

Mae angen i'r practis ddatblygu a sefydlu proses casglu adborth gan y cleifion, fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Dylid ystyried canlyniadau'r adborth a dderbynnir a dylid cymryd camau i ymateb i unrhyw welliannau a awgrymir, gan ddarparu crynodebau o arolygon cleifion i gleifion.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r practis ddatblygu proses ar gyfer casglu adborth gan gleifion yn rheolaidd, fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.***

Roedd gweithdrefn ar waith yn y practis i gleifion allu lleisio pryderon (cwynion) ac roedd hon yn amlwg ar gael yn y man aros. Roedd y weithdrefn gwyno'n cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.[1] Roedd llyfr pryderon yn cael ei gadw a dywedwyd wrthym fod y practis wedi derbyn dwy gŵyn hyd yn hyn, a oedd wedi cael eu hymdrin yn briodol. Roedd llyfr sylwadau ar gael yn y man aros a gwnaethom nodi cofnodion adborth cadarnhaol gan

[1] Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

gleifion. Gwelsom fod rhestr brisiau o'r triniaethau ar gael fel bod cleifion yn cael eu hysbysu am gostau. Mae'r practis ar y llawr cyntaf ac mae mynediad lifft ar gael. Mae system dolen sain ar waith i gynorthwyo cyfathrebu â chleifion sy'n cael anawsterau clyw. Roedd gwybodaeth ar gael yn Gymraeg ar gyfer cleifion a oedd yn siarad Cymraeg.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roedd yr offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a diogel. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith er mwyn diogelu cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy cysylltiedig â gofal iechyd. Gwelsom fod archwiliad rheoli heintiau wedi'i gynnal yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[2].**

**Gwnaethom edrych ar gofnodion cleifion a chanfod bod angen gwelliannau. Gwnaethom argymell bod y deintyddion yn cynnal archwiliad o'r cofnodion clinigol gyda'i gilydd er mwyn rhannu dysgu a'r arferion gorau.**

### <u>Gofal diogel</u>

*Cyfleusterau clinigol*

Gwelsom fod yr ystafell driniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Argymhellwyd y dylid gwneud gwaith adfer i un cwpwrdd yn ystafell driniaeth y deintydd. Roedd hyn er mwyn amgáu man lle'r oedd pibellau'n cael eu storio. Gwnaeth y deintydd drefniadau yn ystod yr arolygiad i roi sylw i hyn.

Roedd asesiadau risg ar gyfer y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)[3] ar gael a gwelsom fod dalenni data diogelwch wedi cael eu cadw ar gyfer pob sylwedd a bod asesiadau risg a oedd yn benodol i'r gweithle a'r amgylchedd wedi'u cwblhau. Roedd eitemau COSHH wedi'u cadw allan o'r golwg, ond gwnaethom argymell y dylid sicrhau bod y mynediad i'r cwpwrdd a ddefnyddid yn fwy diogel, a gwnaed trefniadau i roi sylw i hyn yn ystod yr arolygiad.

---

[2] Mae fersiwn newydd Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn disodli'r cysyniad o "Anghenion Hanfodol" ac "Arfer Gorau" gyda phroses o welliant parhaus, sy'n cyd-fynd â memoranda eraill a adolygwyd yn ddiweddar. https://dental.walesdeanery.org/cy/improving-practice-quality/national-audit-projects

[3] COSHH yw'r ddeddf sy'n mynnu bod cyflogwyr yn rheoli sylweddau peryglus i iechyd. Mae rhagor o wybodaeth ar wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch trwy ddilyn y ddolen ganlynolhttp://www.hse.gov.uk/cosh/index.htm

Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi'u cynnal i sicrhau bod dyfeisiadau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Nid oedd unrhyw offer nwy yn cael eu defnyddio yn y lleoliad. Roedd y dystysgrif gwifrau trydan pum mlynedd ar gyfer y safle yn gyfredol. Cadwyd cofnod o'r gwiriadau dyddiol a gynhaliwyd ar gyfer y cywasgydd.

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd diffoddwyr tân wedi cael eu gosod yn strategol, ac roeddent wedi cael eu gwirio'n rheolaidd. Cynhaliwyd gwiriadau ac ymarferion tân o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai'r practis adolygu ei asesiad risg tân, gan fod angen arwyddion tân. Rhoddwyd cyngor ar storio ocsigen, a rhoddwyd sylw i hyn ar ddiwrnod yr arolygiad, ac mae angen egluro'r defnydd o'r lifft mewn achos o dân.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis adolygu ei asesiad risg tân.***

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff nad yw'n beryglus a gwastraff peryglus. Roedd cynwysyddion offer miniog yn cael eu storio'n ddiogel a chadarnhaodd y practis y bydd y rhain yn cael eu gosod ar y wal. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen adolygu'r trefniadau storio ar gyfer gwastraff clinigol. Gwelsom nad oedd rhai deunyddiau deintyddol yn cael eu storio'n ddiogel, ac er bod hyn wedi cael sylw ar ddiwrnod yr arolygiad, rhaid cynnal trefniadau storio priodol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid cadw'r holl ddeunyddiau deintyddol yn briodol ac yn ddiogel bob amser.***

***Dylai'r practis adolygu ei asesiadau risg amgylcheddol, er mwyn sicrhau bod trefniadau storio priodol yn cael eu nodi a'u cynnal.***

*Rheoli heintiau*

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau i amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy cysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn. Mae hyn oherwydd gwelsom dystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith, gan gynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol gyda sinc benodol i olchi dwylo.

- Roedd cyfarpar diogelu personol megis menyg tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid ar gael ac yn cael ei ddefnyddio.
- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio’r offer deintyddol mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg.
- Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio wedi cael eu cadw, gan gynnwys profi dyddiol. Roedd cofnodion ar gyfer pob cylch sterileiddio'n cael eu cadw yn electronig, a chopi wrth gefn yn cael ei gadw.
- Roedd offer yn cael eu storio'n briodol.

Gwelsom fod y deintydd a'r nyrsys deintyddol wedi cwblhau hyfforddiant mewn dadheintio. Roedd archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cwblhau, yn unol ag argymhellion canllawiau Memorandwm Iechyd Technegol Cymru 01-05, sy'n benodol i Gymru. Roedd tystiolaeth ar gael o statws gwirio brechiadau imiwneiddio ar gyfer yr holl staff perthnasol. Gwelsom nad oedd stamp dyddiad wedi'i nodi'n gyson ar offer deintyddol ar adeg sterileiddio a bod angen cynnal profion protein a chit ffoil ar gyfer yr offer uwchsonig.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid nodi stamp dyddiad ar offer deintyddol ar adeg sterileiddio er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio o fewn yr amser prosesu penodedig.***

***Dylid cynnal profion protein a chit ffoil ar gyfer yr offer uwchsonig.***

*Cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys a chyfarpar dadebru*

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng claf (llewyg). Roedd cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng wedi eu trefnu'n dda, gyda siartiau llif cynnal bywyd cyfatebol i'w defnyddio mewn argyfyngau penodol. Roedd cofnod o'r gwiriadau rheolaidd o gyffuriau brys yn cael ei gynnal. Roedd llyfr damweiniau priodol ar waith ac roedd taflenni damweiniau'n cael eu ffeilio'n ddiogel er mwyn cynnal safonau diogelu data.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant ynghylch sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd. Gwnaethom argymell y dylai'r practis adolygu a diweddaru ei bolisi dadebru i gynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau'r staff. Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael. Fodd bynnag, mae angen i'r practis benodi a hyfforddi swyddog cymorth cyntaf yn y tîm.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis adolygu a diweddaru ei bolisi dadebru i gynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau'r staff.***

***Rhaid i'r practis benodi a hyfforddi swyddog cymorth cyntaf yn y tîm.***

*Diogelu*

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu a allai fod mewn perygl. Roedd polisïau amddiffyn priodol ar waith, ac roedd yr hyfforddiant diogelu yn gyfredol ar gyfer yr holl aelodau staff perthnasol. Fodd bynnag, dylai'r practis ddatblygu ei bolisïau amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ac amddiffyn plant, fel eu bod yn cynnwys rhifau cyswllt ar gyfer sefydliadau diogelu lleol. Mae hyn er mwyn sicrhau y gallai staff gael gafael ar y wybodaeth hon yn rhwydd pe bai angen adrodd am bryder.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis ddatblygu ei bolisïau diogelu, fel eu bod yn cynnwys rhifau cyswllt ar gyfer sefydliadau diogelu lleol.***

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith er mwyn i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn mewn gwirionedd. Dywedwyd wrthym fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau o staff newydd cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriadau diogelu priodol. Roedd y gwiriad diogelu tair blynedd ar gyfer y deintydd yn cael ei ddiweddaru ar adeg yr arolygiad, a derbyniwyd dogfennau'n fuan ar ôl hynny i gadarnhau bod hyn wedi'i wneud.

*Offer radiograffeg*

Gwelsom fod yr amgylchedd wedi cael ei gynllunio a'i drefnu i sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd y practis yn cwblhau archwiliadau radiograffig at ddibenion sicrhau ansawdd.

Canfuom fod y rhan fwyaf o'r staff sydd ynghlwm wrth dynnu radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol

Cyffredinol[4] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Dywedwyd wrthym fod y deintydd wedi cadw lle ar hyfforddiant diweddaru yn y maes hwn a gwelsom dystiolaeth o hynny, ac roedd dyddiad hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer mis Chwefror 2017.

*Cofnodion cleifion*

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deintyddol a gwnaethom siarad â'r ymarferydd deintyddol ar ddiwrnod ein harolygiad. Ar y cyfan, canfuom fod y gwaith o gadw cofnodion a rhoi gofal i gleifion o ansawdd da.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella'r meysydd canlynol:

- Nid oedd hanesion meddygol yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd na'r claf yn gyson i nodi eu bod wedi cael eu gwirio. Nid oedd system glir er mwyn eu diweddaru.
- Nid oedd cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmygu na sgrinio am ganser y geg yn cael ei gofnodi'n gyson. Mae angen cofnodi cydsyniad gwybodus parhaus cleifion.
- Mae angen gwahaniaethu'n glir rhwng cofnodion o archwiliadau ceg allanol ac archwiliadau ceg mewnol a'u cofnodi'n fanwl a chyson.
- Mae angen i'r deintydd lofnodi nodiadau cleifion.
- Mae angen cofnodi cyfnodau rhwng galw cleifion yn ôl.
- Mae angen cofnodi'r rheswm dros dynnu radiograffau a nodi'r canfyddiadau ar bob amser.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid cynnal nodiadau'r cleifion yn unol â chanllawiau cadw cofnodion proffesiynol a dylid gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r canfyddiadau penodol a nodwyd yn yr adroddiad.***

<u>Gofal effeithiol</u>

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis yn cynnal rhai archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau. Nid oedd trefniadau ffurfiol ar waith er mwyn i staff

[4] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

gynnal archwiliadau adolygu gan gymheiriaid yn rheolaidd. Gwnaethom hysbysu'r practis bod dysgu trwy adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliadau'n helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir. Gwnaethom drafod amrywiaeth o destunau archwilio a ddarperir gan Ddeoniaeth Cymru.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys archwiliadau adolygu rheolaidd gan gymheiriaid, fel ffordd o gynyddu'r hyn a ddysgir, rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.***

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis hwn. Mae tîm staff sefydledig yno gyda throsiant staff isel. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi, yn deall eu cyfrifoldebau, ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan y deintydd a rheolwr y practis. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.**

Gwelsom fod y ddeintyddfa'n cael ei rhedeg yn dda. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny trwy edrych ar amrywiaeth o gofnodion a pholisïau, a thrwy drafodaethau ag aelodau o'r tîm deintyddol. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a oedd i'w gweld yn hapus ac yn gymwys i gyflawni eu rolau.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu cael hyfforddiant perthnasol i'w swydd a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Dywedodd rheolwr y practis fod arfarniadau wedi cael eu cynnal ar gyfer y staff. Gwelsom fod systemau ar waith i sicrhau bod unrhyw staff newydd yn derbyn hyfforddiant ymsefydlu a'u bod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau'r practis. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod y rhain yn cael eu cofnodi.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith, a gweld tystiolaeth eu bod wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae angen mwy o fanylion yn rhai o'r polisïau, fel y nodir yn yr adroddiad, a chynghorwyd y rheolwr practis i ystyried datblygu eu polisi sicrhau ansawdd, er mwyn gweithredu proses barhaus o archwilio ac adolygu fel ffordd o sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.

Gwnaethom nodi fod angen ystyried storio ac archifo ffeiliau cleifion, er mwyn sicrhau bod data personol yn ddiogel. Roedd y practis wrthi'n cymryd cyngor pellach ynghylch prosesau cadw a/neu archifo.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis adolygu'r broses storio ffeiliau cleifion er mwyn cadw data personol yn ddiogel.***

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Huw Jones yn Northfield Road yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r camau a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis ac sydd wedi’i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[5] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[6] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau’r practis
- Archwilio offer a’r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny’n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol. Tynnir sylw’r practis deintyddol a’r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy’n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o’r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r modd y gweithredwyd rheoliadau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

---

[5] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[6] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Huw Jones

## Dyddiad yr Arolygiad: 8 Rhagfyr 2016

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu’r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 6 | Mae angen i'r practis ddatblygu proses ar gyfer casglu adborth gan gleifion yn rheolaidd, fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b)<br><br>*Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2.1* | Rydym bob amser wedi bod â llyfr sylwadau ar gyfer adborth gan gleifion, ac rydym bellach wedi cyflwyno'r defnydd o holiaduron cleifion, a fydd yn cael eu rhoi i gleifion bob blwyddyn ac a fydd yn cael eu harchwilio a'u gweithredu yn ôl yr angen. | Lisa Smith | Cwblhawyd |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu’r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Dylai'r practis adolygu ei asesiad risg tân. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b)<br><br>*Rheoliadau Rhagofalon Tân (yn y gwaith) 1997 a Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005* | Mae'r adeilad bellach wedi cael asesiad risg tân. Roedd meysydd a oedd angen sylw ac mae rheolwyr yr adeilad yn ymdrin â nhw ar hyn o bryd. Un ohonynt yw cadair gwacáu'r adeilad, a fydd yn cynorthwyo cleifion anabl pe bai tân. Bydd rheolwyr yr adeilad yn ymdrin â meysydd eraill a oedd angen sylw, megis goleuadau argyfwng. | Lisa Smith | 28 Chwefror 2017 |
| 8 | Rhaid cadw'r holl ddeunyddiau deintyddol yn briodol ac yn ddiogel bob amser. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b)<br><br>*Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Lloegr a Chymru) 2005* | Mae cloeon diogel ar y cypyrddau erbyn hyn, felly nid yw deunyddiau'n hygyrch i gleifion mwyach. | Lisa Smith | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Dylai'r practis adolygu ei asesiadau risg amgylcheddol, er mwyn sicrhau bod trefniadau storio priodol yn cael eu nodi a'u cynnal. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b)<br><br>*Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1999* | Bydd asesiadau risg amgylcheddol yn cael eu hadolygu gan fod lle storio priodol ar gyfer gwastraff peryglus ar gael erbyn hyn y tu allan i'r adeilad mewn bin cloadwy. | Lisa Smith | 28 Chwefror 2017 |
| 9 | Dylid nodi stamp dyddiad ar offer deintyddol ar adeg sterileiddio er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio o fewn yr amser prosesu penodedig. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b)<br><br>*Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, 24 (k)* | Mae stamp dyddiad yn cael ei nodi ar yr holl offer deintyddol ar adeg benodol y sterileiddio erbyn hyn ac maent yn cael eu hadolygu bob mis. | Lisa Smith | Cwblhawyd |
| 9 | Dylid cynnal profion protein a chit ffoil ar gyfer yr offer uwchsonig. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b) | Mae profion protein a chit ffoil ar gyfer y bath uwchsonig yn cael eu cynnal erbyn hyn yn rhan o'r broses ddadheintio wythnosol. | Lisa Smith | Cwblhawyd |

| **Rhif y Dudalen** | **Yr Hyn y Mae Angen ei Wella** | **Rheoliad / Safon** | **Camau Gweithredu'r Practis** | **Swyddog Cyfrifol** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05* | | | |
| 9 | Dylai'r practis adolygu a diweddaru ei bolisi dadebru i gynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau'r staff. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b)<br><br>*Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol* | Mae'r polisi dadebru wedi'i ddiweddaru erbyn hyn i gynnwys lleoliad newydd cyffuriau meddygol ac ocsigen, a swyddogaethau a chyfrifoldebau aelodau'r staff. | Lisa Smith | Cwblhawyd |
| 9 | Rhaid i'r practis benodi a hyfforddi swyddog cymorth cyntaf yn y tîm. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b)<br><br>*Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981* | Mae gennym ddau aelod o staff â chymwysterau priodol sydd wedi'u penodi'n swyddogion cymorth cyntaf, ac mae gan y ddau ohonynt dystysgrifau. | Lisa Smith | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu’r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 10 | Dylai'r practis ddatblygu ei bolisïau diogelu, fel eu bod yn cynnwys rhifau cyswllt ar gyfer sefydliadau diogelu lleol. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b)<br><br>Canllawiau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.3.3 ac 8.5 | Mae'r polisïau diogelu wedi'u diweddaru i gynnwys rhifau cyswllt a siartiau llif. | Lisa Smith | Cwblhawyd |
| 11 | Mae'n rhaid cynnal nodiadau'r cleifion yn unol â chanllawiau cadw cofnodion proffesiynol a dylid gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r canfyddiadau penodol a nodwyd yn yr adroddiad. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b)<br><br>*Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Safon 4* | Rydym wedi cymryd cyngor yr arolygwyr ac rydym bellach yn gweithredu'r canllawiau a'r gwelliannau a argymhellwyd wrth gadw cofnodion. | Bonnie Mothibi | Cwblhawyd |
| 11 | Dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys archwiliadau adolygu rheolaidd gan gymheiriaid, fel ffordd o gynyddu'r | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 | Mae trefniadau eisoes ar waith gyda deintyddfa gyfagos i gynnal archwiliadau adolygu gan gymheiriaid yn rheolaidd. | Lisa Smith | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | hyn a ddysgir, rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir. | 14 (1) (b)<br><br>*Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Diwygio) 2008, Adran 16A (1)* | Dyddiadau i'w cadarnhau. | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 12 | Rhaid i'r practis adolygu'r broses storio ffeiliau cleifion er mwyn cadw data personol yn ddiogel. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b)<br><br>*Deddf Diogelu Data 1998* | Ar ôl cysylltu ag Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG, mae cofnodion priodol wedi cael eu gwaredu'n ddiogel. Caiff yr holl gardiau cofnod eraill eu cadw mewn cypyrddau cloadwy bellach, lle nad ydynt yn hygyrch i gleifion. | Lisa Smith | Cwblhawyd |

## Cynrychiolydd y Practis:

## Enw (llythrennau bras): Lisa Smith

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Rheolwr Practis** |
| **Dyddiad:** | **24 Ionawr 2017** |